# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 5**

DARPARIAETH ATODOL

**PENNOD 4**

COSBAU O DAN Y DDEDDF HON

*Cyffredinol*

**70 Talu cosbau**

Rhaid talu cosb o dan y Bennod hon cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir hysbysiad am y gosb (ond gweler adran 182 o DCRhT (talu cosbau yn achos adolygiad neu apêl)).

**71 Gwahardd cosbi ddwywaith**

Nid yw person yn agored i gosb o dan y Bennod hon mewn cysylltiad ag unrhyw beth os yw'r person wedi cael euogfarn am drosedd mewn perthynas â hynny.

**72 Atebolrwydd cynrychiolwyr personol**

(1) Os yw person sy'n agored i gosb o dan y Bennod hon ("P") wedi marw, caniateir asesu unrhyw gosb y gellid bod wedi ei hasesu ar P ar gynrychiolwyr personol P.

(2) Mae cosb a asesir yn unol ag is-adran (1) i'w thalu o ystad P.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

## 73 Pŵer i wneud rheoliadau ynghylch cosbau

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch—

(a) symiau cosbau o dan y Bennod hon, a

(b) y weithdrefn ar gyfer asesu cosbau o dan y Bennod hon.

(2) Caiff y rheoliadau ddiwygio'r Ddeddf hon.